OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 736 (Cy.66)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygio) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud	- -	*6 Mawrth 2007*
Yn dod i rym	- -	*2 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwer a roddwyd iddo gan adran 37(4) a (5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygio) (Cymru) 2007, a deuant i rym ar 2 Ebrill 2007.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1968" ("the 1968 Regulations") yw Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau 1968

2.—(1) Caiff Rheoliadau 1968 eu diwygio yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) dileer y geiriau "they may request a report from the head teacher in respect of the child,".

(3) Dirymir Rheoliad 6 o Reoliadau 1968.

(4) Ar ôl rheoliad 8 mewnosoder y canlynol—

"**Report from head teacher**

8A.—(1) A licensing authority must not grant a licence in respect of a child who attends school unless —

(**1**) 1963.p.37. Diwygiwyd Adran 37 gan Reoliadau Plant (Diogelu yn y Gwaith) 1998 (O.S.1998/276). O ran Cymru, trosglwyddwyd y pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**2**) O.S.1968/1728 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygiadau Amrywiol) 1998 (O.S. 1998/1678).

(a) they have obtained a report from the head teacher of that school dealing with any matters relevant to the authority's consideration of section 37(4) of the Act; and

(b) have taken account of that report:

unless the authority is satisfied that it has not been practicable to obtain a report."

(5) Yn rheoliad 10(4) (addysg)—

(a) hepgorer "on location" ym mhob man lle digwydd y geiriau hynny, a

(b) hepgorer is-baragraff (e).

(6) Yn rheoliad 12, ar ôl paragraff (1) mewnosoder y canlynol—

"(1A) The licensing authority must not approve a matron unless they are satisfied that —

(a) they have provided the matron with information as to the legal responsibilities of a matron and the law on performances by children; and

(b) the matron has undertaken child protection training to the level recommended by the Local Safeguarding Children Board where such recommendation has been made.".

(7) Ar ôl rheoliad 12(6) mewnosoder—

"(7) Where the licensing authority think fit, they may grant a licence subject to a condition requiring the holder of the licence to provide the matron with a current copy of the script for the production concerned; and

(b) any such condition must be set out in the licence."

(8) Ar ôl rheoliad 19 mewnosoder y canlynol—

"**Child Protection Policy**

19A. The licence holder must ensure that the policy or policies enclosed with the application are adhered to."

(9) Yn rheoliad 27 —

(a) yn y pennawd, yn lle "thirteen" rhodder "nine";

(b) ym mharagraff (1), yn lle "thirteen" rhodder "nine";

(c) ym mharagraff (1)(a), yn lle "eight" rhodder "nine and a half";

(ch) yn lle is-baragraff (b) o baragraff (1), rhodder "(b) before seven in the morning or after seven in the evening.";

(d) ym mharagraff (2) yn lle'r geiriau o a chan gynnwys "the Independent Television Authority" hyd at a chan gynnwys "the Independent Television Authority" rhodder "the Channel 3 licence holder, a broadcaster or independent production company";

(dd) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "performance or rehearsal" mewnosoder "either between the hours of seven in the morning and seven in the evening or";

(e) ym mharagraff (2)(a)(iii), yn lle "eight" rhodder "nine and a half";

(f) ym mharagraff (2)(b), ar ôl "twelve hours" mewnosoder "either between the hours of seven in the morning and seven in the evening or";

(ff) ym mharagraff (3), yn lle "thirteen" rhodder "nine";

(g) ym mharagraff (3)(b), yn lle "three and a half" rhodder "four";

(ng) ym mharagraff (4), yn lle "thirteen" rhodder "nine";

(10) Yn rheoliad 28 —

(a) yn y pennawd, yn lle "twelve" rhodder "eight";